# ASESIAD EFFAITH GYMDEITHASOL 2026



## Neges gan
## Lyn Cadwallader
**Prif Weithredwr - Un Llais Cymru**

Wrth i bwysau costau byw godi'n gyflym eto i aelwydydd ar draws Cymru, mae Cynghorau Cymuned a Thref yn parhau i fod yn un o'r haenau mwyaf cyraeddadwy a gweladwy o gefnogaeth leol y gall cymunedau droi atynt. Boed yn ymateb i gostau'n codi, mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd, cynnal llesiant, gwella gofodau lleol, neu helpu cymunedau i ddod at ei gilydd, mae cynghorau yn chwarae rôl gynyddol bwysig yng ngwytnwch bob dydd lleoedd a phobl.

Mae'r Asesiad Effaith Gymdeithasol hwn yn darparu tystiolaeth bwysig o'r cyfraniad sy'n cael ei wneud ar draws y sector. Mae nid yn unig yn amlygu ehangder y gweithgarwch mewn cymunedau, ond hefyd y gwerth cymdeithasol ehangach a gynhyrchir trwy weithredu lleol, gwaith partneriaeth, gwirfoddoli, a chefnogaeth gymunedol ataliol, llawer ohono'n cael ei gyflawni wrth i bwysau costau byw fod ar eu gwaethaf.

Mae'r ffigyrau pennawd yn amlygu maint y cyfraniad: £25.97 miliwn o werth cymdeithasol wedi'i greu ar gyfer cymunedau ledled Cymru, a £4.86 o werth wedi'i gynhyrchu am bob £1 a fuddsoddwyd gan gynghorau. Y tu ôl i'r ffigyrau hynny mae hybiau cynnes, prosiectau bwyd, cyngor ar fudd-daliadau, amser gwirfoddolwyr, ac ymyriadau lleol bychain sydd, gyda'i gilydd, wedi gwneud gwahaniaeth mesuradwy i aelwydydd ledled Cymru sy'n ceisio ymdopi wrth i gostau godi.

Mae'r canfyddiadau'n atgyfnerthu rhywbeth y mae llawer ohonom sy'n gweithio'n agos â'r sector yn ei wybod yn barod, sef fod Cynghorau Cymuned a Thref yn llawer mwy na chyrff statudol. Maen nhw'n gynullwyr lleol, yn ddatryswyr problemau ac yn angoriaid cymunedol cadarn, sy'n aml yn gallu ymateb yn gyflym a hyblyg i angen lleol wrth iddo ddatblygu.

Dangosodd yr asesiad hefyd beth yw gwerth cydweithio. Cafodd llawer o'r cyfraniad ei gyflawni trwy gynghorau yn gweithio gyda mudiadau gwirfoddol, awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol a phobl leol eu hunain.

Yn Un Llais Cymru, gwnaethom gomisiynu'r gwaith hwn i helpu adeiladu corff tystiolaeth cliriach o rôl a chyfraniad y sector, i gefnogi dysgu, cryfhau datblygu i'r dyfodol, a helpu cyfrannu at drafodaethau polisi ehangach am waith ataliol, llesiant a gwytnwch cymunedol yng Nghymru. Mae'r trafodaethau hynny'n arbennig o bwysig ar hyn o bryd, wrth i aelwydydd ledled Cymru wynebu mwy fyth o bwysau ar gostau hanfodion.

Mae Cam 2 Prosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru, sy'n fyw erbyn hyn, yn adeiladu'n uniongyrchol ar yr hyn ddywedodd cynghorau wrthym yn yr asesiad, gydag adnoddau ymarferol, arian grant, cefnogaeth partneriaeth a ffyrdd newydd i gynghorau fod yn rhan o'r corff tystiolaeth parhaus. Mewn sawl ffordd, nid yw'r gwaith y bu'r sector yn ei wneud ond newydd ddechrau.

Hoffwn ddiolch i'r holl gynghorau, partneriaid ac unigolion a gyfrannodd eu profiadau, tystiolaeth ac enghreifftiau i'r gwaith hwn. Gobeithiwn y bydd y canfyddiadau yn cyfrannu at barhau'r drafodaeth am y rôl bwysig y gall cynghorau lleol ei chwarae yn cefnogi cymunedau cryf, cysylltiedig a chydnerth ar draws Cymru.

**Lyn Cadwallader**
**Prif Weithredwr, Un Llais Cymru**